# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaethau Preswyl Cymunedol Ychwanegol**

**Uned 14**
**Parc Busnes yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam**
**Yr Wyddgrug**
**CH7 1XP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

23/05/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Gwasanaethau Preswyl Cymunedol Ychwanegol

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cymorth cartref |
| Darparwr cofrestredig | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae Gwasanaethau Preswyl Cymunedol Ychwanegol yn darparu gwasanaeth cymorth cartref, gan gynnwys trefniadau byw â chymorth, yng Ngogledd Cymru. Mae pobl yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y staff gofal i fod mor annibynnol (lle bernir ei bod yn ddiogel ac yn ymarferol) â phosibl ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Cânt eu cefnogi i reoli eu bywydau o ddydd i ddydd ac ystyrir eu barn.

Mae anghenion gofal a chymorth y bobl yn cael eu monitro ac, oherwydd hyn, mae'r gofal a chymorth sy'n cael eu darparu yn diwallu eu hanghenion ac yn addas i'w hymddygiad. Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r bobl i hyrwyddo eu hanghenion gofal a chymorth. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg y bobl yn cynnwys gwybodaeth o'u safbwynt nhw ar sut i ofalu amdanynt a'u cefnogi. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw, ac mae ystafelloedd gwely'r bobl yn cynnwys eu heiddo personol. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol yn y gwasanaeth.

## Llesiant

Cefnogir pobl i gael rheolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd. Mae ganddynt ddewisiadau ac mae'r staff gofal yn gwrando arnynt. Mae eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu caffael bob dydd trwy sgyrsiau ac arsylwadau o'u hymddygiad gan staff gofal. Mae'r datganiad o ddiben a'r arweiniad i'r gwasanaeth ar gael i'r bobl. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael. Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio eu gofal, i'w cynorthwyo i ddeall y gofal a'r cymorth a ddarperir. Nid yw’r gwasanaeth yn gallu darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg.

Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r bobl. Mae ffeiliau gofal yn cynnwys gwybodaeth am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cyffredinol y bobl. Pan fydd angen, gallant gael mynediad at wasanaethau iechyd y darparwr gwasanaeth i'w cynorthwyo gyda'u hanghenion emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau er mwyn cynorthwyo ffordd iach o fyw. Darperir dewis o opsiynau bwyd iddynt, sy'n bodloni eu dewisiadau. Mae gweithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle yn darparu cyfleoedd i'r bobl fod yn egnïol a bod yn rhan o'r gymuned. Mae gan rai o'r bobl ystod o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, anabledd dysgu ac iechyd meddwl cymhleth, sy'n eu gwneud yn gwbl ddibynnol ar y staff gofal ar gyfer pob agwedd ar eu gofal.

Mae polisïau a gweithdrefnau sy’n ymwneud â llesiant y bobl yn gydnaws â deddfwriaeth a chanllawiau lleol a chenedlaethol. Mae’r polisi diogelu a’i weithdrefnau yn gyfredol ac yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau unigol y staff gofal ac eraill sy’n gweithio yn y gwasanaeth o ran nodi, derbyn ac adrodd honiadau o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol neu gamdriniaeth bosibl.

Mae’r bobl yn byw mewn llety sy'n ddiogel ac sydd yn eu cynorthwyo i gyflawni canlyniadau llesiant.  Mae'r cartref yn lân ac yn daclus ac mae gan y bobl ddigon o le i gymdeithasu neu i dreulio amser ar eu pennau eu hunain. Mae gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol yn cael eu cwblhau, ac mae unrhyw atgyweiriadau neu waith sydd ei angen ar y llety yn cael sylw'n brydlon. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth staff gofal ac adnoddau ar gael i ddarparu gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben ac i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r bobl yn gyfarwydd â'r staff gofal ac mae trefniadau staffio yn darparu cysondeb i'r gofal a chymorth.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am anghenion gofal a chymorth y bobl. Maent yn dangos bod anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y bobl yn cael eu hystyried. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn amlygu hoff bethau, dymuniadau a theimladau'r bobl mewn perthynas â'u hanghenion gofal, eu diddordebau hamdden, a sut y cefnogir eu hannibyniaeth. Cefnogir ymweliadau teuluol yn unol â chynllun gofal ac asesiadau risg y bobl.

Mae gan y bobl fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gael cyngor a chymorth. Mae'r bobl wedi cael eu cofrestru gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sylfaenol ac mae gwasanaethau iechyd y darparwr gwasanaeth (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) ar gael iddynt. Mae'r cofnodion iechyd yn dangos bod y staff gofal yn ymgynghori â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fydd anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y bobl yn newid. Gwelsom fod y bobl yn derbyn gofal cynnes, digynnwrf a chalonogol. Mae'r staff gofal yn rhoi anghenion y bobl yn flaenllaw i'w hymarfer.

Mae lefelau staffio ac oriau cymorth yn amrywio ym mhob prosiect cymunedol / llety, yn dibynnu ar anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y bobl; fodd bynnag, darperir gofal parhaus 24 awr ym mhob un o'r saith prosiect. Mae'r staff gofal yn darparu gofal a chefnogaeth mewn ffordd sy'n amddiffyn, hyrwyddo a chynnal diogelwch a llesiant y bobl. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau ei fod yn ymatebol ac yn rhagweithiol wrth nodi a lliniaru risgiau, ac wrth gefnogi cymryd risg ac annibyniaeth a reolir lle penderfynwyd bod hyn yn briodol. Mae'r staff gofal yn gwrando ar y bobl ac yn siarad â hwy â chwrteisi a pharch, gyda'u gofal a'u cymorth yn ganolbwynt i'w hymarfer.

Mae'r polisi diogelu a'i weithdrefnau yn gyfredol ac yn dilyn deddfwriaeth a statudau lleol a chenedlaethol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod wedi mynychu hyfforddiant diogelu a'u bod yn deall y broses o adrodd am bryderon diogelu. Mae mecanweithiau ar waith i ddiogelu pobl yng Ngwasanaethau Preswyl Cymunedol Ychwanegol. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru a pholisi diogelu'r gwasanaeth ar gael i'r staff gofal eu cyrchu i ddilyn y cyngor a chanllawiau cyfredol. Os oes angen, mae'r darparwr yn gwneud atgyfeiriadau diogelu i awdurdodau lleol ac yn cyflwyno hysbysiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

## Yr Amgylchedd

Mae Gwasanaethau Preswyl Cymunedol Ychwanegol yn rheoli saith llety cymunedol sy'n cefnogi 16 o bobl y mae eu pecynnau gofal yn cael eu comisiynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a sawl awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Mae'r saith llety sydd ynghlwm wrth Wasanaethau Preswyl Cymunedol Ychwanegol fel a ganlyn: Hafanedd, Y Maes, Tawelfan, Hafan Dawel, Thomas Court, Green Meadows, a Berwyn.

Mae trefniadau ar gael i sicrhau bod unrhyw atgyweiriadau a gwaith sy'n codi ar unwaith yn cael eu hadrodd ac yn cael sylw mewn ymateb i lefel y brys. Mae hyn yn cynnal diogelwch a llesiant y bobl, y staff gofal, ac unrhyw ymwelwyr â'r cartref gofal. Mae gan y darparwr gwasanaeth dîm cynnal a chadw sy'n goruchwylio gwaith cynnal a chadw medrus. Cynhelir gwiriadau iechyd a diogelwch, diogelwch tân, ac iechyd yr amgylchedd yn unol â'r amserlen briodol.

Mae mynediad i bob llety yn ddiogel a gwiriwyd ein hunaniaeth. Mae polisi rheoli heintiau COVID-19 ar gael i'r staff gofal ac mae cyfarpar diogelu personol a chynhyrchion glanhau ar gael iddynt. Cedwir gwybodaeth gyfrinachol a sensitif yn ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r broses o sicrhau ansawdd yn caniatáu i ddarparwr y gwasanaeth fonitro a nodi unrhyw faterion y mae angen eu datrys. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol i fonitro perfformiad y gwasanaeth mewn perthynas â'i ddatganiad o ddiben ac i lywio'r adolygiad ansawdd gofal.

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi gan niferoedd priodol o staff gofal sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol i'w galluogi i gyflawni eu canlyniadau personol.

Mae'r staff gofal yn derbyn goruchwyliaeth i'w cynorthwyo i fyfyrio ar eu hymarfer ac i sicrhau bod eu cymhwysedd proffesiynol yn cael ei gynnal. Mae hyn yn cynnwys adborth ynglŷn â'u perfformiad gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae cofnodion goruchwylio yn cynnwys trafodaethau am y bobl, llesiant personol y staff gofal, ac ymarfer unigol. Mae cyfarfodydd y tîm staff gofal yn rhoi cyfle i drafod cynnydd y bobl a'r ffordd orau o'u cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau llesiant.

Hysbysir y bobl, eu teuluoedd ac awdurdodau sy'n lleoli am y gwasanaeth a ddarperir drwy'r datganiad o ddiben. Mae'n darparu gwybodaeth am yr ystod o wasanaethau ac ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol y gall y bobl ddisgwyl ei chael. Mae darparwr y gwasanaeth yn cynnal cofnodion, sydd ar gael i'r bobl a'u cynrychiolwyr. Mae'n cyfathrebu ac yn hysbysu AGC ac asiantaethau statudol pan fydd digwyddiadau diogelu ac arwyddocaol sy'n effeithio ar y bobl.

Mae gwiriadau recriwtio manylach i staff yn cael eu cwblhau, ac mae hyfforddiant gorfodol ac arbenigol yn sicrhau bod gan y staff gofal y sgiliau, yr arbenigedd a'r wybodaeth i gyflawni eu rôl yn effeithiol.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl a/neu risg i lesiant y bobl yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/07/2022